# Parc Denlee — Sgript

Rydw i a'm cefnder, David, sy'n boen, o hyd yn mynd i Barc Denlee i chwarae pêl droed. Rydyn ni wrth ein boddau â'r parc, ond mae yna broblem. Mae giang yno o hyd. Maen nhw'n ysmygu ac yfed, ac yn gweiddi a chwarae o gwmpas. Maen nhw'n hŷn o lawer na ni. Maen nhw'n gwneud i ni deimlo'n fach. Rydym yn rhy ofnus i fynd yn agos atynt.

Mae problem arall yn ein parc. Un diwrnod, ciciodd David bêl i mewn i'r llwyni a daeth o hyd i nodwydd. Roedd ar fin codi'r nodwydd, a gweiddais, 'Stop!' Rhewodd a gafaelais yn ei law. Dywedais wrtho, 'Mae nodwyddau'n beryglus iawn. Paid byth â chyffwrdd ynddynt!' Yna, dywedais wrtho, 'Gallet gael haint – haint sy'n peryglu dy fywyd!'

Galwom 101, sef rhif yr heddlu pan nad yw'n argyfwng. Daeth yr heddlu i'r parc. Aethon nhw â'r nodwydd i ffwrdd mewn blwch arbennig ar gyfer eitemau siarp. Rhedodd y giang i ffwrdd pan welon nhw'r heddlu!

Yna, treuliom weddill y prynhawn yn chwarae pêl droed.